Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau cymorth ieuenctid

yn

Ngwynedd

Mawrth 2008

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolygiad o wasanaethau cymorth ieuenctid yn ardal awdurdod lleol Gwynedd.

Diben y rhaglen yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Mae arolygu hefyd wedi'i gynllunio i roi mwy o wybodaeth i ddysgwyr am ansawdd darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Gwasanaethau cymorth ieuenctid

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau o wasanaethau cymorth ieuenctid yn unol â gofynion Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Ar gyfer arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid, gall gweithgarwch arolygu:

- fod yn gyffredinol neu mewn perthynas â materion penodol;
- ymwneud â pherson neu sefydliad penodol sy'n darparu gwasanaethau neu i ddosbarth penodol o berson neu sefydliad; ac
- ymwneud â maes penodol.

Mae gan brif weithredwr pob awdurdod lleol gyfrifoldeb statudol i roi trefniadau partneriaeth yn eu lle er mwyn cydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r awdurdod lleol yn arwain y trefniadau partneriaeth hyn drwy gynllunio, cydlynu a goruchwylio'r holl wasanaethau cymorth ieuenctid mewn ardal. Mae'r fframwaith statudol ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac yn 'Ymestyn Hawliau'[1] a'i gyfarwyddiadau a'i arweiniad cysylltiedig.

Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gofyn bod y darparwyr yn paratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r camau arfaethedig.

Gwasanaethau cymorth ieuenctid yw'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu, eu caffael neu eu hwyluso gan awdurdod lleol a'u nodi mewn cynllun cyflwyno partneriaeth ardal. Dyma'r gwasanaethau a fydd, ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn 'annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol):

(a) i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;

(b) i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; neu

(c) i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.'

---

[1] Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru Cyfarwyddyd a Chanllawiau, Gorffennaf 2002 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

'Cymorth' yw'r Gronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc. Ei nod yw darparu rhwydwaith o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc o fewn fframwaith o ddarpariaeth gyffredinol, er mwyn gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc o deuluoedd dan anfantais.

Yr arolygiad

Cynhaliodd tîm o Arolygwyr Ei Mawrhydi o Estyn yr arolygiad o 3 Mawrth 2008 i 13 Mawrth 2008. Roedd y tîm hefyd yn cynnwys arolygwyr ychwanegol ac aseswyr cymheiriaid a ryddhawyd o ddarparwyr gwasanaeth eraill yng Nghymru. Roedd enwebai'n cynrychioli'r darparwr hefyd yn aelod o'r tîm arolygu. Nid yw enwebeion yn cymryd rhan mewn trafodaethau am raddio.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a barnau a yw'r bartneriaeth yn darparu gwerth am arian.

Defnyddiodd y tîm arolygu y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r llawlyfr ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Disgrifwyr gradd

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Cynnwys Tudalen

Cyd-destun **1**

Crynodeb **3**

Argymhellion **5**

Safonau **6**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 6

Ansawdd addysg a hyfforddiant **9**

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, y dysgu a'r asesu? 9

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 10

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 12

Arweinyddiaeth a rheolaeth **15**

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 15

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 16

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 17

Ymateb y darparwr i ganfyddiadau'r adroddiad **19**

Atodiad 1 Sail dystiolaeth yr arolygiad

Atodiad 2 Y tîm arolygu

Atodiad 3 Trefniadau partneriaeth

Cyd-destun

Yr ardal

1 Poblogaeth gyffredinol Gwynedd yw 116,843. Mae tua 69% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Y boblogaeth o bobl ifanc 11-25 mlwydd oed yw 23,150.

2 Gan fod ganddi ddwysedd poblogaeth o 46 o bobl i bob cilometr sgwâr, Gwynedd yw'r drydedd sir fwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru. Mae Gwynedd, sy'n ardal wledig yn bennaf, yn cael ei nodweddu gan anheddau bychain wedi'u lledaenu ar draws y sir ac anheddau trefol mwy o faint yn cynnwys Bangor a Chaernarfon yn y gogledd, Pwllheli i'r gorllewin, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yn y canol, a Thywyn a Dolgellau yn y de.

3 Mae economi Gwynedd wedi'i seilio yn bennaf ar amaethyddiaeth a'r sector gwasanaethau. Mae ardaloedd sylweddol o ddifreintedd economaidd a chymdeithasol, gyda Pheblig (Caernarfon), Marchog 1 (Bangor), Marchog 2 (Bangor) a Chadnant (Caernarfon) ymysg y 25% o wardiau mwyaf difreintiedig[2] yng Nghymru.

Trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid

4 Mae Prif Weithredwr yr awdurdod lleol wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau am gydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid i Gyfarwyddwr Strategol (Datblygu).

5 Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi ailstrwythuro'r trefniadau partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gan fod y bartneriaeth wedi canfod bod y system flaenorol yn anaddas at y diben. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc[3]. Mae cyfanswm o 25 o aelodau yn eistedd ar y Bartneriaeth Strategol yn cynrychioli ystod eang o gyrff sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Mantell Gwynedd[4] a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r Bartneriaeth Strategol hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd ynghyd â sefydliadau addysg bellach ac uwch.

6 Er mwyn hwyluso gwaith y trefniadau partneriaeth, mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaeth wedi rhoi Grwpiau Cynllunio a Datblygu yn eu lle i ganolbwyntio ar feysydd gwaith penodol.

- Grŵp Cynllunio a Datblygu - Rhiantu, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Grŵp Cynllunio a Datblygu – Pobl Ifanc

[2] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2005)
[3] Gweler atodiad 3
[4] Mantell Gwynedd: cyngor gwirfoddol lleol

- Grŵp Cynllunio a Datblygu – Cyfranogi a Gwybodaeth
- Grŵp Cynllunio a Datblygu – Ymchwil Plant a Phobl Ifanc
- Grŵp Cynllunio a Datblygu – Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol
- Grŵp Cynllunio a Datblygu – Tlodi Plant

7 Yn ogystal, ceir Uwch Grŵp Cynllunio a Datblygu, sy'n cynnwys cadeiryddion y grwpiau cynllunio a datblygu. Nod yr uwch grŵp yw goruchwylio a chydlynu gwaith y grwpiau Cynllunio a Datblygu. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Bartneriaeth Strategol i baratoi a chyhoeddi'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac i gynghori'r Bartneriaeth Strategol ar y comisiynu, y cyfathrebu a'r trefniadau rheoli perfformiad y mae angen eu cyflwyno i roi'r Cynllun Plant a Phobl ifanc ar waith yn effeithiol.

Crynodeb

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	3
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, y dysgu a'r asesu?	3
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	3
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	3
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	4
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	4
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	3

Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni

8 Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Ngwynedd yn cyflawni safonau da yn eu gwaith. Maent yn datblygu lefel dda o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae rhai pobl ifanc yn hunanfodlon â'u cyflawniadau, ac nid ydynt yn herio'u hunain i ennill mwy o gydnabyddiaeth am eu gwaith eu hunain. Dim ond hanner y bobl ifanc sydd wedi cofrestru gyda'r gwasanaethau cymorth ieuenctid oedd yn bresennol yn ystod cyfnod yr arolygiad.

Ansawdd y ddarpariaeth

9 Mae staff mewn llawer o ddarparwyr yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn dda. Maent yn defnyddio ystod dda o weithgareddau i helpu pobl ifanc i ymestyn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Yn gyffredinol, mae gan staff cynlluniau tymhorol neu flynyddol da. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu staff i ymateb i anghenion a diddordebau pobl ifanc yn dda. Fodd bynnag, dim ond hanner y staff sy'n gwneud defnydd da o gynlluniau sesiwn unigol i helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau dysgu. Mewn ambell achos, mae cynllunio sesiynau yn wael. Nid yw lleiafrif o'r staff yn cynnig digon o her i bobl ifanc i ymestyn eu dysgu.

10 Yn gyffredinol, mae gan bobl ifanc fynediad da i ystod eang o wasanaethau ond nid oes gan y bartneriaeth ddarlun llawn o'r ddarpariaeth y gellid ei chynnig i bobl ifanc. Caiff pobl ifanc gyfleoedd da i gael achrediad ond ni chaiff hyn ei gynnig iddynt yn ddigon cyson. Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i anghenion economaidd lleol ac mae'n hyrwyddo pwysigrwydd datblygu cynaliadwy. Mae pobl ifanc yn gwneud defnydd helaeth o'r iaith Gymraeg fel iaith naturiol ar gyfer cyfathrebu mewn amrywiaeth o weithgareddau.

11 Mae darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cefnogi ac yn ymgynghori'n dda â phobl ifanc. Caiff pobl ifanc fynediad i wasanaethau arbenigol o ansawdd da ac maent yn derbyn arweiniad a chymorth da. Mae llawer o bobl ifanc yn cael gwasanaethau eiriolaeth da, pan fo'u hangen. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd yn cael cefnogaeth reolaidd. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr unigol weithdrefnau clir i bobl ifanc wneud cwynion a gweithdrefnau da ar gyfer diogelu pobl ifanc.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

12 Mae trefniadau arweinyddiaeth y bartneriaeth yn dda. Mae gweledigaeth glir a chyson ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, ynghyd â dealltwriaeth dda o'r angen am welliannau pellach yng nghydlyniant y gwasanaethau hyn. Mae arweinwyr yn cydnabod lle mae'r bartneriaeth yn y broses o newid ac yn gwybod pa newidiadau strategol fydd yn arwain at fwy o welliannau mewn gweithio mewn partneriaeth. O ganlyniad, bu cynnydd da yn ddiweddar mewn nodi anghenion pobl ifanc. Fodd bynnag, mae cynnydd hyd yn hyn wedi bod yn rhy araf ac nid yw'r awdurdod yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o hyd wrth gydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

13 Mae nifer o ddarparwyr unigol yn defnyddio fframweithiau penodol yn dda i helpu i godi safonau, fel Ffynnon[5] a theclyn awdit a hunanasesu y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC). Fodd bynnag, nid yw ansawdd wedi cael ei ymgorffori yng ngwaith y bartneriaeth. Yn rhy aml, mae ffocws gwaith cynllunio ar ganlyniadau meintiol yn hytrach nag ar ansawdd canlyniadau a'u heffaith uniongyrchol ar bobl ifanc. Mae swyddogion partneriaeth yn defnyddio technegau rheoli prosiect yn dda i fonitro prosiectau a materion cydymffurfio. Nid yw'r broses hunanasesu yn ddigon cadarn gan ei bod yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n cofnodi effaith diffygion, argaeledd gwasanaethau a safonau ar bobl ifanc.

14 Mae pobl ifanc yn elwa ar ystod o adeiladau da ac adnoddau o ansawdd da. Yn arbennig, mae ychydig o bartneriaid yn gwneud defnydd da o adnoddau sy'n cael eu rhannu. Mae'r cychwyn effeithiol hwn wrth rannu adnoddau ar lefel strategol yn gwella gallu'r bartneriaeth i gynllunio'n fwy effeithiol. Yn gyffredinol, mae lefelau staffio yn dda. Mae gan y mwyafrif o bartneriaid staff sydd â chymwysterau a phrofiad da, ac mae gan bron pob partner staff sy'n gallu darparu gwasanaethau dwyieithog i bobl ifanc. Mae partneriaeth yn dechrau rhannu a chanoli adnoddau ariannol. Barnodd yr arolygiad fod trefniadau partneriaeth yng Ngwynedd, ar y cyfan, yn darparu gwerth boddhaol am arian.

[5] System Meddalwedd Rheoli Perfformiad Cymru Gyfan y cynhelir peilot ohoni yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Argymhellion

15 Er mwyn gwella'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni ac ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant, dylai'r awdurdod lleol, drwy ei drefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, fynd i'r afael â'r holl ddiffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Yn arbennig, dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid:

A1 gwblhau'r broses o fapio gwasanaethau cymorth ieuenctid a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cyflawni'r ddyletswydd statudol o gydlynu gwasanaethau drwy lenwi bylchau a nodwyd mewn darpariaeth ac osgoi dyblygu;

A2 cryfhau prosesau hunanasesu i sicrhau bod arfarniad a barnau wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn o berfformiad a chynnydd;

A3 sicrhau bod systemau rheoli perfformiad:

- yn arfarnu pa mor effeithiol y mae awdurdod yn cydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- yn mesur ansawdd, effaith a pherfformiad gwasanaethau; ac
- yn gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata rheoli er mwyn cynllunio'n fwy effeithiol;

A4 sicrhau bod pob gweithiwr sy'n delio â phobl ifanc wedi cael gwiriad gan y swyddfa cofnodion troseddol (SCT) cyn dechrau gweithio;

A5 ymestyn y cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad i gydnabyddiaeth ac achredu ffurfiol ar gyfer eu gwaith, ynghyd â datblygu eu medrau sylfaenol;

A6 arfarnu a chofnodi cyrhaeddiad a chynnydd pobl ifanc yn gyson; a

A7 sicrhau bod pob aelod o staff yn cynllunio'n effeithiol er mwyn herio pobl ifanc i anelu at ragoriaeth.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Safonau cyrhaeddiad pobl ifanc[6]	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	14%	54%	32%	0%	0%

16 Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cyflawni safonau da yn eu gwaith. Cyflawnodd 12% (dros 2,700) o bobl ifanc 11-25 oed gydnabyddiaeth ffurfiol am y gwaith a wnaed ganddynt drwy wasanaethau cymorth ieuenctid yn 2006-2007. Mae hyn yn cynnwys credydau Rhwydwaith y Coleg Agored, Gwobr Dug Caeredin, Dyfarniad John Muir, Tystysgrif Phoenix, dyfarniadau cyrff llywodraethol chwaraeon cenedlaethol, tystysgrifau Cymorth Cyntaf a dyfarniadau ASDAN[7].

17 Roedd 24% o'r bobl ifanc a fynychodd ganolfannau gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol wedi ennill tystysgrifau drwy gymryd rhan mewn cynllun cofnod cyrhaeddiad a achredwyd gan Gydbwyllgor Addysg Cymru. Er enghraifft, mae'r bobl ifanc yn datblygu medrau gwirfoddol ac yn gwella eu dealltwriaeth o faterion ieithyddol a diwylliannol.

18 Hefyd, enillodd 300 o bobl ifanc a gymerodd ran yng ngweithgareddau Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI) dystysgrifau cyrhaeddiad. Mae pobl ifanc yn ymgymryd â chyfrifoldebau fel gweithio fel gwirfoddolwyr yn eu clwb neu weithio ar bwyllgorau ar lefel y sir. Maent yn datblygu medrau dinasyddiaeth da a medrau da gweithio mewn tîm drwy'r gwaith hwn.

19 Fodd bynnag, mae rhai pobl ifanc sy'n mynychu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn hunanfodlon am eu cyflawniadau. Nid ydynt yn eu herio'u hunain yn ddigon da nac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau achrededig. Er enghraifft, dim ond 51 o bobl ifanc a enillodd Wobr Efydd Dug Caeredin yn 2006-2007 a dim ond 3 a gyflawnodd Wobr Arian.

20 Mae pobl ifanc sy'n agored i niwed sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu yn gweithio'n dda ac yn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae pobl ifanc sy'n gysylltiedig â rhaglen Dewisiadau'r Ifanc NACRO[8] yn cyflawni achrediad drwy Rwydwaith y Coleg Agored. Maent yn cael credydau mewn diogelwch bwyd, rhifedd a llythrennedd a medrau hanfodol. Gweithiodd un cyfranogwr, a oedd wedi ymadael â'r ysgol yn gynnar, gydag athro gwirfoddol i gael cymwysterau TGAU ac yna symudodd ymlaen i goleg addysg bellach.

[6] Mae'r graddau hyn yn adlewyrchu sampl fach yn unig o wasanaethau a gafodd eu harsylwi gan arolygwyr.
[7] Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu
[8] NACRO: Y Gymdeithas Cenedlaethol er Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr

21 Enillodd rhieni ifanc a gymerodd ran mewn cyrsiau coginio gyda Chynghrair Her Iechyd Gwynedd dystysgrifau medrau coginio ynghyd â dyfarniadau hylendid bwyd. O ganlyniad, maent yn gallu dilyn ryseitiau yn well ac yn gallu cynnig bwyd iachach i'w plant.

22 Mae pobl ifanc sydd wedi bod yn ddigartref yn cymryd rhan yn dda yn y cynllun Llwybr Llwyddiant[9]. Dyma raglen o 15 o gyrsiau sydd wedi'u hachredu gan Rwydwaith y Coleg Agored sy'n gwella gallu pobl ifanc i fyw'n annibynnol a rheoli eu bywydau. Enillodd 73 o bobl ifanc gredydau yn ystod 2006-2007. Enillodd bob un ohonynt o leiaf un credyd tra bod 50% wedi cwblhau'r rhaglen gyfan.

23 Mae pobl ifanc yn mynd at eu gwaith gyda lefelau da o symbyliad a brwdfrydedd. O ganlyniad, maent yn datblygu lefel dda o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth. Maent yn dangos medrau personol a chymdeithasol da, yn dangos parch tuag at eraill, ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a staff. Maent yn datblygu lefelau da o hyder ac yn mwynhau eu dysgu. Mae'r holl bobl ifanc yn gweithio'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg.

24 Fodd bynnag, mae rhai pobl ifanc yn amharod i gymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb. Dim ond hanner y bobl ifanc sydd wedi cofrestru gyda'r gwasanaethau cymorth ieuenctid oedd yn bresennol mewn sesiynau yr arsylwyd arnynt yn ystod cyfnod yr arolygiad.

25 Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ymarfer yn datblygu diddordebau newydd ac yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw rhai pobl ifanc yn ymgysylltu'n dda â'r rhaglenni hyn.

26 Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol yn gwneud cynnydd da. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Clywed[10] yn cefnogi mudiadau ieuenctid i wella'u gallu i ystyried barnau pobl ifanc a'u cynnwys nhw wrth wneud penderfyniadau. Mae rhai o'r bobl ifanc hyn wedi symud ymlaen i yrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol neu waith ieuenctid.

[9] Llwybr Llwyddiant: Rhaglen sy'n helpu paratoi pobl ifanc i fyw'n annibynnol. Caiff ei chyflwyno gan GISDA, sef prosiect tai cymdeithasol lleol.

[10] Clywed: Prosiect, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd, sy'n annog gwasanaethau i wrando ar farnau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae pobl ifanc yn cynnig cyngor, help a hyfforddiant i wasanaethau ar sut i wrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r prosiect yn hyfforddi pobl ifanc i asesu pa mor dda y mae gwasanaethau yn gwrando ac mae'n dyfarnu marc ansawdd i wasanaethau sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol.

Mae pobl ifanc yn dysgu am effaith a chanlyniadau eu gweithredoedd.	Mae rhai pobl ifanc yn gwella eu medrau dinasyddiaeth ac ymwybyddiaeth gymdeithasol drwy gymryd rhan mewn cynllun warden iau. Cyflwynir y Cynllun Wardeniaid Iau gan Adran Gwasanaethau Tai Cyngor Gwynedd. Mae'n paratoi pobl ifanc, sy'n byw ar stadau tai mewn ardaoledd Cymunedau'n Gyntaf, megis, ym Mangor a Chaernarfon, i gymryd rôl weithgar ym mywyd eu hystadau. Mae'r Cynllun Wardeniaid Iau yn gwella ymwybyddiaeth pobl ifanc o faterion cyffuriau ac alcohol, effaith sbwriel a graffiti ar yr amgylchedd, a rôl yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân yn sylweddol. Mae'r cynllun yn gwella gwybodaeth pobl ifanc am ddiogelwch tân a'u dealltwriaeth o effaith a chanlyniadau galwadau ffug a chynnau tanau yn fwriadol.

27 Mae pobl ifanc anabl sy'n gweithio gyda rhaglen Clebran[11] yn gwella'u hymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth dda o faterion cyfle cyfartal ac yn gweithio'n agos gyda swyddog cydraddoldebau'r anabl yr awdurdod lleol er mwyn gwella gwasanaethau.

28 Mae rhai pobl ifanc yn gwella'u medrau galwedigaethol drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn rhaglen Llwyddo'n Lleol[12] yn datblygu medrau entrepreneuraidd da. Fe wnaethant gychwyn a chynnal amrywiaeth o fusnesau gan gynnwys gwallt a harddwch, gwneud arwyddion, cerddoriaeth, garddio, gwasanaethau adeiladu a chynllunio priodasau. Mae pobl ifanc eraill wedi cwblhau rhaglen o bum cwrs, wedi'u hachredu gan Brifysgol Bangor, sy'n gwella'u dealltwriaeth o entrepreneuriaeth a datrys problemau. Mae pobl ifanc sy'n ymgymryd â gwaith gwirfoddol mewn cartrefi pobl hŷn, mewn ysbytai neu mewn siopau elusennol yn gwella'u medrau yn y gweithle, eu dealltwriaeth o faterion cymdeithasol, ynghyd â datblygu eu curriculum vitae.

[11] Clebran: Prosiect dan arweiniad Barnardos i helpu plant ifanc sydd ag anableddau i fynegi eu barnau a'u safbwyntiau am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

[12] Llwyddo'n Lleol: Menter gan yr awdurdod lleoli i feithrin medrau menter pobl ifanc yn eu cymunedau. Mae'n rhoi medrau, profiad a hyder i bobl ifanc gyfrannu at ddatblygu eu cymuned leol.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, y dysgu a'r asesu?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Ansawdd y gwaith gyda phobl ifanc ac asesu[13]	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
	14%	50%	32%	4%	0%

29 Mae staff mewn llawer o ddarparwyr yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac ystod dda o weithgareddau i ennyn diddordeb pobl ifanc i ehangu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

30 Yn yr achosion gorau, mae staff yn cyflwyno diben sesiynau hyfforddiant yn dda ac yn defnyddio gweithgareddau a gemau yn dda i helpu pobl ifanc i weithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn cysylltu sesiynau hyfforddiant yn dda â dysgu blaenorol pobl ifanc er mwyn eu helpu i symud ymlaen yn eu dealltwriaeth. Mae'r staff hyn yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddulliau, gan gynnwys cystadlaethau, gweithgareddau ymarferol, sioeau sleidiau, cwisiau a thrafodaethau grŵp i helpu pobl ifanc i werthfawrogi'r pwnc yn llawn. Maent yn dangos medrau newydd yn dda ac yn rhoi cyfrifoldeb i bobl ifanc am reoli gweithgareddau. Yn ogystal, maent yn herio pobl ifanc yn llwyddiannus i helpu iddynt wella'u medrau a'u dealltwriaeth. Mae'r staff hyn yn gwneud defnydd da o adnoddau dysgu gan gynnwys DVDs, clipiau ffilm, taflenni a llyfrau gwaith i egluro'r materion y maent yn eu haddysgu.

31 Mae mwyafrif y staff yn gweithio'n dda gyda phobl ifanc drwy eu symbylu'n dda a rhoi anogaeth dda iddynt gynllunio rhaglenni a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent yn rhoi arweiniad clir ac yn gweithio gyda phobl ifanc mewn modd sensitif, gan eu herio ar yr un pryd i ymestyn eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithio'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg.

32 Mae gan staff mewn llawer o ddarparwyr gynlluniau tymhorol neu flynyddol da. Mae'r rhain yn mynd i'r afael yn dda ag anghenion pobl ifanc. Mae staff yn gwneud defnydd da o amlinelliadau cwrs i helpu pobl ifanc i gyflawni medrau a chanlyniadau positif. Mae mwyafrif y staff yn cynnal diddordebau pobl ifanc yn dda drwy eu cynnwys wrth gynllunio rhaglenni a gweithgareddau.

33 Fodd bynnag, dim ond hanner y staff sy'n defnyddio cynlluniau sesiwn unigol yn dda i helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau dysgu. Mewn ambell achos, mae cynllunio sesiynau yn wael gan nad yw'n cynnwys dynion a menywod ifanc fel ei gilydd yn yr holl weithgareddau ac yn atgyfnerthu syniadau ystrydebol am y rhywiau. Nid yw rhai staff yn cynnwys pobl ifanc yn ddigon da wrth arfarnu sesiynau unigol. Mewn cyferbyniad, mae nifer fach o staff yn defnyddio adborth pobl ifanc yn dda iawn er mwyn gwella cynllunio sesiynau yn y dyfodol.

[13] Mae'r graddau hyn yn adlewyrchu sampl fach yn unig o'r gwasnaethau yr arsylwyd arnynt gan arolygwyr.

34 Nid yw lleiafrif o staff yn cynnig digon o her i bobl ifanc i ymestyn eu dysgu. Yn yr achosion hyn, mae safon y gweithgareddau a gynigir i bobl ifanc islaw eu galluoedd. Nid yw staff yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau'n ddigon da i symbylu pobl ifanc. Nid ydynt ychwaith yn esbonio'r pwnc yn ddigon da i helpu pobl ifanc i ddeall y testun. Mae eu defnydd o adnoddau dysgu yn wael ac maent naill ai'n colli diddordeb pobl ifanc o ganlyniad, neu'n colli cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau i wella medrau pobl ifanc. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn cynnwys menywod ifanc yn ddigon da mewn sesiynau.

35 Mae staff mewn darparwyr unigol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o systemau ar gyfer asesu cynnydd pobl ifanc. Maent yn defnyddio meini prawf achredu'n dda i asesu cynnydd pobl ifanc ac i gydnabod eu cyraeddiadau yn ffurfiol. Mae'r staff hyn yn cydnabod pwysigrwydd helpu pobl ifanc i ddeall pa mor dda maent wedi cyflawni a'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

36 Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o staff yn cofnodi cyflawniadau pobl ifanc yn ddigon da. Maent yn colli cyfleoedd i wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael cydnabyddiaeth ffurfiol ar gyfer y gwaith da a wnânt. Yn ogystal, nid yw rhai staff yn gwneud digon o ddefnydd o systemau mewnol i gofnodi cyflawniadau pobl ifanc.

37 Mae staff mewn llawer o ddarparwyr yn gwneud defnydd da o sesiynau holi ac ateb i wirio dealltwriaeth pobl ifanc. Maent yn rhoi sylw da i bobl ifanc unigol i wirio beth maent wedi'i ddysgu. Maent yn rhoi adborth da i bobl ifanc am eu cynnydd er mwyn helpu iddynt ddeall beth maent wedi'i ddysgu. Mae'r staff hyn hefyd yn arsylwi'n dda ar bobl ifanc yn ystod gweithgareddau ymarferol i asesu eu cynnydd.

38 Fodd bynnag, nid yw nifer fach iawn o staff yn asesu dysgu blaenorol pobl ifanc yn dda sy'n golygu nad ydynt yn gallu gwneud yn siŵr bod pobl ifanc naill ai'n gwella'u dysgu neu'n ennill medrau newydd. Nid yw rhai staff yn defnyddio systemau i arfarnu canlyniadau eu gwaith yn gyson a gwneud yn siŵr bod y canlyniadau y mae pobl ifanc yn eu cael yn llywio cynllunio yn y dyfodol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

39 Ar y cyfan, mae gan bobl ifanc yng Ngwynedd fynediad da i wasanaethau sy'n gallu bodloni eu hanghenion a'u diddordebau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae partneriaid allweddol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn weithredol i sicrhau bod ystod eang o brofiadau dysgu ar gael i bobl ifanc ar draws y sir mewn lleoliadau hygyrch. O ganlyniad, mae gan y mwyafrif o bobl ifanc fynediad da i'w hawliau.

40 Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth drosolwg digonol o'r holl wasanaethau cymorth ieuenctid sydd ar gael. Felly, nid yw'n gallu nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac achosion lle mae gwahanol ddarparwyr yn dyblygu gwasanaethau. Gan nad yw'r ddarpariaeth bresennol wedi cael ei mapio mewn digon o fanylder, mae enghreifftiau o fylchau daearyddol a diffygion sylweddol yn y modd y caiff gwybodaeth ei darparu i bobl ifanc. Mae diffygion hefyd yn y ddarpariaeth mynediad agored rhwng Ebrill a Medi a'r ffordd y caiff y grŵp oedran 19-25 a phobl ifanc anodd eu cyrraedd eu targedu.

41 Mewn llawer o achosion, mae cyfleoedd da i bobl ifanc sicrhau achrediad, er enghraifft cynllun Gwobr Dug Caeredin, Rhwydwaith y Coleg Agored, ASDAN, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a modiwlau BTEC. Fodd bynnag, nid yw darparwyr yn defnyddio cyfleoedd am achrediad yn ddigon cyson i gydnabod gwaith da pobl ifanc. O ganlyniad, collir cyfleoedd pwysig. Hefyd, nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynllunio ar gyfer sut mae pobl ifanc yn datblygu eu medrau allweddol a'u medrau sylfaenol, nac yn cofnodi hyn.

42 Mae'r bartneriaeth yn ymgynghori'n eang â phobl ifanc. Cafodd dros 1,500 o blant a phobl ifanc eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Plant a Phobl Ifanc arfaethedig. Mewn achosion eraill, cafodd pobl ifanc eu cynnwys yn dda mewn ymgynghoriad ar gynllun trafnidiaeth a chynlluniau adfywio lleol yr awdurdod lleol.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i anghenion economaidd lleol ac yn paratoi pobl ifanc yn dda ar gyfer byd gwaith.	Yn ddiweddar, cynhaliodd yr awdurdod lleol asesiad manwl o sectorau twf yn y dyfodol i lywio'r maes hwn o'i waith. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid fel y Rhwydwaith Dysgu 14-19, Gyrfa Cymru'r Gogledd Orllewin, colegau, Menter a Busnes ac asiantaethau hyfforddiant i baratoi pobl ifanc ar gyfer cyfleoedd gwaith mewn sectorau a nodir. Mae darparwyr yn gwneud yn siŵr bod gan bobl ifanc lleol y medrau a'r hyder gofynnol i ateb anghenion cyflogwyr lleol. Ar y cyd, mae partneriaeth yn rhoi rhaglenni hyfforddiant a chynlluniau prentisiaeth penodedig ar waith. Er enghraifft, targedwyd mamau ifanc ar gyfer hyfforddiant ar gyfer y sector adwerthu yng Nghaernarfon a bellach mae gan y mwyafrif helaeth ohonynt swyddi. Mewn achos arall, mae pobl ifanc yn cael eu hyfforddi'n arweinwyr gweithgareddau awyr agored er mwyn ymateb i ddiffyg gweithwyr lleol dwyieithog mewn sector sy'n datblygu'n gyflym. Mae ymchwil ddiweddar yn dangos mai dim ond 5% o'r gweithlu, yn y sector pwysig hwn yng ngogledd orllewin Cymru, sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynllun 'Llwyddo'n Lleol' yn cynnig cyfleoedd da iawn i bobl ifanc ddatblygu medrau entrepreneuraidd ac i ddod yn fwy mentrus yn eu cymunedau. Ers cychwyn y cynllun mae bron 100 o bobl ifanc wedi cael bwrsarïau i dreialu amrywiol fentrau. Mae 51 ohonynt wedi datblygu'n fusnesau amser llawn ac mae nifer sylweddol wedi dechrau cyflogi pobl eraill.

43 Caiff pobl ifanc gyfleoedd dysgu da sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae nifer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n cynnwys gwella'r amgylchedd fel glanhau afonydd, clirio coedlannau ac ailagor llwybrau cyhoeddus. Mae un enghraifft o bobl ifanc yng stad Maesgeirchen yn ward Marchog, Bangor, sy'n gweithio'n effeithiol gyda'r Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf i lanhau'r afon Cegin, ac maent yn cymryd balchder mawr yn y cyflawniad hwn.

44 Caiff pobl ifanc gyfleoedd da i wirfoddoli gyda mudiadau ac elusennau lleol. Mae dros 120 o bobl ifanc yn gwirfoddoli drwy Mantell Gwynedd, ac yn helpu mewn siopau a swyddfeydd gydag elusennau. Mae llawer mwy o bobl ifanc yn cynorthwyo ac yn gweithio mewn mudiadau fel yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, a Mudiad Ysgolion Meithrin ac maent yn aelodau o fforymau ieuenctid.

45 Ym mron pob achos, caiff y Gymraeg ei defnyddio'n helaeth fel iaith gyfathrebu naturiol gan bobl ifanc mewn amrywiaeth o weithgareddau a lleoliadau. Mae'r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu cymhathu mewn ffordd gefnogol a sensitif i brif weithgareddau'r gwasanaethau cymorth ieuenctid sy'n eu galluogi nhw i ddatblygu eu medrau a'u hyder yn yr iaith.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

46 Mae darparwyr gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc yn dda. Mae iechyd a lles pobl ifanc yn nodwedd graidd o'r trefniadau partneriaeth yng Ngwynedd.

47 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn ymgynghori â phobl ifanc yn rheolaidd ac yn dda ynghylch eu hanghenion gofal a chefnogaeth.

Gwrando ar farnau pobl ifanc	Mae cynllun Clywed yn defnyddio pobl ifanc i asesu pa mor dda y mae darparwyr yn ymateb i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy asesu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae aelodau Clywed yn cael eu hyfforddi i farnu i ba raddau y mae darparwyr yn ystyried ac yn gwrando ar farnau plant a phobl ifanc. Mae darparwyr llwyddiannus yn cael marc ansawdd Clywed i gydnabod bod defnyddwyr ifanc yn chwarae rhan weithgar mewn prosesau cynllunio ac mewn dulliau o gyflwyno gwasanaethau. Hyd yma, mae Clywed wedi achredu 62 o ddarparwyr lleol, y mae llawer ohonynt yn darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae'r rhain yn cynnwys Gyrfa Cymru'r Gogledd Orllewin, llyfrgelloedd, ysgolion, meddygfeydd a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

48 Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael mynediad i wasanaethau arbenigol o ansawdd da sy'n helpu iddynt wneud dewisiadau am fyw'n iach, iechyd rhywiol a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae staff yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau arweiniad o ansawdd da i bobl ifanc. Yn arbennig, mae Llywio'r Llwybr, sef siop wybodaeth leol ym Mlaenau Ffestiniog, yn cynnig ystod o wasanaethau gwybodaeth a chyngor iechyd arbenigol o ansawdd da i bobl ifanc.

49 Mae'r bartneriaeth wedi datblygu nifer o gynlluniau diddorol i gefnogi pobl ifanc yng Ngwynedd; fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn hyd yma. Yn gyffredinol, dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd gan bobl ifanc am wasanaethau cymorth ieuenctid lleol.

50 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dda i bobl ifanc. Mae nifer o wasanaethau'n cyd-weithio'n dda ar lefel weithredol i ymateb i anghenion pobl ifanc, er mwyn helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am eu haddysg, eu hyfforddiant a'u cyflogaeth. Mae gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig cefnogaeth dda i bobl ifanc mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig cefnogaeth unigol i bobl pan fo'i hangen, er enghraifft y cynlluniau gofalwyr ifanc. Mae rhai staff hefyd yn gwneud defnydd da o systemau ffurfiol i asesu anghenion gofal pobl ifanc ac maent yn gweithio'n dda gyda'r bobl ifanc hyn i baratoi eu cynlluniau gofal unigol.

51 Mae'r bartneriaeth wedi nodi bod mynd i'r afael â digartrefedd yn flaenoriaeth allweddol ac mae wedi comisiynu gwaith ar anghenion pobl ifanc yng Ngwynedd am lety. Mae GISDA (Grŵp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon) yn cynnig cefnogaeth dda i bobl ifanc ddigartref ac yn eu paratoi ar gyfer byw'n annibynnol. Caiff canlyniadau asesiadau cychwynnol anghenion pobl ifanc eu defnyddio'n dda i lywio cynlluniau datblygu unigol.

52 Drwy weithio gyda'i gilydd, mae darparwyr yn cynnig rhaglenni sefydlu da a chefnogaeth dda i bobl ifanc ar adegau pwysig o newid yn eu bywydau. Mae nifer o ddarparwyr, gan gynnwys Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin, yn cynnig adnoddau effeithiol a hygyrch i helpu pobl ifanc i gasglu gwybodaeth am gyfleoedd i aros yn yr ardal ac i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

53 Mae llawer o bobl ifanc yn cael gwasanaethau eiriolaeth da gan ystod o ddarparwyr. Mae Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol yn ariannu'r gwasanaeth eiriolaeth Tros Gynnal ar gyfer pobl ifanc yn eu gofal. Mae'r bartneriaeth wedi comisiynu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc eraill y sir mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae Barnardo's hefyd yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth i bobl ifanc sydd ag anableddau.

Cynlluniau peilot effeithiol i fodloni anghenion pobl ifanc	Gan adeiladu ar ei asesiad anghenion – Plant a Phobl Ifanc Gwynedd Heddiw, mae'r bartneriaeth yn datblygu nifer o gynlluniau da i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad i wasanaethau'n haws. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynnal cynllun peilot i ddarparu cludiant cymorthdaledig gyda'r nos i bobl ifanc rhwng 16-25 oed. Mae'r cynllun arloesol hwn yn cynnig tocynnau dychwelyd ar lwybrau penodol am £1 y noson i'r holl bobl ifanc sy'n byw yn ardaloedd Llŷn, Pwllheli a Phorthmadog. Mae'r cynllun hwn yn annog pobl ifanc i ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gael mynediad i gyfleusterau lleol fel sinemâu a chanolfannau hamdden. Mae hefyd yn galluogi pobl ifanc i deithio'n lleol fel eu bod yn dod yn fwy hyderus wrth gael mynediad i wasanaethau presennol y tu hwnt i'w cymunedau cartref. Dywed pobl ifanc eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth i'w galluogi i gael mynediad i wasanaethau ar ôl ysgol a choleg.

54 Mae darparwyr unigol, gan gynnwys ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin a gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sydd ag anabledd i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau gwaith. Mae'r darparwyr hyn yn sicrhau bod pobl ifanc sydd ag anabledd yn integreiddio'n dda i'r ddarpariaeth brif ffrwd. Er hynny, nid yw'r bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd yn cael cymorth rheolaidd.

55 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi cyflwyno gweithdrefnau cwyno da. Fodd bynnag, nid oes gan y bartneriaeth system ganolog ar hyn o bryd ar gyfer delio â chwynion ar sail ryngasiantaethol.

56 Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr unigol weithdrefnau da ar gyfer diogelu pobl ifanc. Mae bron yr holl ddarparwyr yn gofyn bod eu staff yn cwblhau gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) cyn iddynt weithio gyda phobl ifanc.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 4: Nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig

57 Mae gweledigaeth y bartneriaeth yn adlewyrchu'r polisi a'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynllunio a chydlynu'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid mewn ardaloedd awdurdod lleol yn dda. Yn briodol, mae'r weledigaeth hon yn cysylltu'n dda â nodau ac amcanion y Cyngor, y Gyfarwyddiaeth Ddatblygu a dogfennau cynllunio allweddol yr awdurdod fel y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Addysg Unigol.

58 Mae gan y Cyfarwyddwr Strategol, Arweinydd y Cyngor a chyfarwyddwyr/uwch swyddogion asiantaethau partner weledigaeth glir a chyson ar gyfer y bartneriaeth. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am flaenoriaethau a gwerthoedd y bartneriaeth, a dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl ifanc. Mae'r uwch bartneriaid hyn yn ymwybodol o'r angen am welliannau pellach wrth gydlynu gwasanaethau; maent yn adnabod lle maent arni yn y broses newid; ac maent yn gwybod pa newidiadau strategol y mae angen iddynt eu gwneud i ysgogi gwelliannau pellach.

59 Mae gweledigaeth ac arweinyddiaeth y Bartneriaeth Strategol yn dechrau ymsefydlu, ond nid yw yn ei le yn gadarn eto ar gyfer yr holl bartneriaid. Mae hyn yn golygu bod rhai partneriaid yn parhau i weithio yn unol â'u hagenda eu hunain ac nid ydynt eto wedi cynnwys nodau ac amcanion y bartneriaeth yn llawn.

60 Mae ailstrwythuro'r Gyfarwyddiaeth Ddatblygu ac aildrefnu diweddar y trefniadau partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc wedi dod â newid cadarnhaol i drefniadau cydlynu. Mae'r newidiadau hyn wedi dod â mwy o ffocws ac eglurder i waith amlasiantaethol mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae cynnydd hyd yn hyn wedi bod yn rhy araf ac nid yw'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

61 Bu cynnydd da iawn yn ddiweddar wrth nodi anghenion pobl ifanc yng Ngwynedd. Er gwaethaf hyn, nid oes gan y bartneriaeth drosolwg digon da o wasanaethau cymorth ieuenctid ac felly, ni all gydlynu gwasanaethau yn effeithiol.

62 Mae prosesau rheoli perfformiad yr awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu ac, ar hyn o bryd, mae gormod o ganolbwyntio ar fesur proses yn hytrach na mesur effaith y bartneriaeth ar welliant mewn canlyniadau i bobl ifanc. Nid yw'r bartneriaeth yn mesur pa mor effeithiol y mae hi wrth gydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

63 Nid oes gan y bartneriaeth gynllun gyda thargedau penodol i fodloni anghenion. Heb hwn, nid yw'n gallu mesur cynnydd yn effeithiol, nodi'r meysydd y mae angen eu gwella yn gywir na chymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion. Fodd bynnag, mae gan rai aelodau o'r bartneriaeth drefniadau rheoli perfformiad soffistigedig ar waith. Mae'r systemau hyn yn helpu iddynt fesur cynnydd yn ôl targedau cytunedig, nodi bylchau mewn gwasanaethau a hwyluso hyfforddiant da i fodloni anghenion

strategol a gweithredol fel ei gilydd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae gwaith effeithiol mewn partneriaeth yn golygu bod y cyfleoedd hyfforddiant hyn ar gael i aelodau eraill y bartneriaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'r bartneriaeth yn annog digon o'r math hwn o weithio ar y cyd.

64 Mae Mantell Gwynedd, sef y grŵp ymbarél ar gyfer mudiadau gwirfoddol lleol, yn cynrychioli'r sector yn dda yn y bartneriaeth. Mae cefnogaeth dda i gynrychiolwyr o Fantell Gwynedd. Yn ogystal, mae cynrychiolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei bwydo'n ôl i'r holl bartneriaid yn y sector.

65 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn synhwyrol, wedi trefnu cynrychiolaeth i fudiadau sy'n cael cyllid ganddynt. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod cynrychiolaeth dda i ddarparwyr llai o faint yn yr awdurdod lleol, sydd â gallu cyfyngedig i gyfrannu at brosesau cynllunio a chydlynu.

66 Nid oes gan yr awdurdod lleol bolisi clir sy'n gofyn bod gan staff wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn gweithio gyda phobl ifanc. Mae perygl o niwed posibl i bobl ifanc o ganlyniad i'r diffyg pwysig hwn.

67 Mae'r dangosyddion cynnar yn awgrymu bod blaenoriaethau strategol a nodau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc datblygol yn briodol ac wedi'u cysylltu'n dda â'r blaenoriaethau a nodir yn y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod yn dod yn fwy effeithiol wrth ddatblygu dull mwy cydlynol o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 4: Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

68 Mae arweinwyr a rheolwyr darparwyr unigol yn adnabod ardal yr awdurdod lleol yn dda ac mae ganddynt wybodaeth dda am ddemograffeg leol. Cynhaliodd y bartneriaeth archwiliad anghenion yn 2006 sy'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd er mwyn sefydlu gwaelodlin dda ar gyfer y bartneriaeth. Fodd bynnag, nid yw ansawdd wedi cael ei ymgorffori yng ngwaith y bartneriaeth.

69 Mae darparwyr yn monitro eu sefydliadau eu hunain ond gwnânt hyn drwy ymateb i sefyllfaoedd. Nid yw'r bartneriaeth yn monitro nac yn arfarnu ansawdd gwasanaethau. Hyd yma, nid yw uwch reolwyr wedi cyfleu nodau a gweledigaeth y bartneriaeth yn ddigon da i staff ar bob lefel.

70 Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr lefel dda o ymrwymiad i ymgynghori â phobl ifanc yng Ngwynedd. Mae mudiadau unigol yn defnyddio marc ansawdd Clywed yn dda i asesu pa mor effeithiol y maent yn gwrando ar farnau pobl ifanc.

71 Mae nifer o ddarparwyr unigol yn gwneud defnydd da o fframweithiau penodol i helpu i godi safonau; er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn gwneud defnydd da o Ffynnon ac o declyn awdit ac hunanasesu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) i osod blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw darparwyr yn cydweithio'n ddigon da i ddefnyddio a dadansoddi gwybodaeth sydd ar gael o safbwynt gwella'r ddarpariaeth i bobl ifanc.

72 Gwna rheolwyr ddefnydd da o arbenigedd ymgynghorwyr allanol i roi gwybod i'r bartneriaeth am effeithiolrwydd ei systemau a'i strwythurau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a gosod cyfeiriad strategol. Yn dilyn adroddiad diweddar, ymgynghorodd y bartneriaeth yn helaeth gydag eraill, gan gynnwys y bartneriaeth 14-19, Fforwm[14], a'r sector gwirfoddol ar yr argymhellion, cyn gwneud newid, er enghraifft i strwythur ac aelodaeth y bartneriaeth.

73 Mae swyddogion partneriaeth yn defnyddio technegau rheoli prosiect yn dda i fonitro prosiectau a materion cydymffurfio. Maent yn gweithredu pan nad yw sefydliadau neu unigolion yn paratoi adroddiadau yn ôl yr angen.

74 Nid yw'r bartneriaeth yn gwybod pa mor dda y mae pobl ifanc yn cyflawni. Nid oes gan y bartneriaeth system i gofnodi i ba raddau y caiff gwasanaethau eu defnyddio gan bobl ifanc, eu cyraeddiadau, y medrau maent yn eu hennill, na chyfradd eu cynnydd.

75 Nid yw'r broses hunanasesu yn ddigon cadarn nac ychwaith yn cynnwys digon o ddata. Mae'r adroddiad hunanasesu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n cofnodi effaith diffygion, argaeledd a safonau gwasanaeth ar bobl ifanc. Mae'r adroddiad hunanasesu'n cynnwys y rhan fwyaf o ddiffygion a nodwyd gan y tîm arolygu, ond nid yw'n sylweddoli'r effaith y mae'r diffygion yn eu cael ar bobl ifanc ac ar y graddau a ddyfarnwyd. Mae'r tîm arolygu yn cytuno â'r graddau hunanasesu mewn tri o'r saith cwestiwn allweddol ond mae wedi dyfarnu graddau is i'r pedwar cwestiwn allweddol arall.

76 Mae enghreifftiau o brosiectau unigol penodol yn dilyn canlyniadau cleientiaid yn dda, fel y prosiect KIT (Cadw mewn Cysylltiad).

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

77 Mae pobl ifanc yn elwa ar ystod eang o adeiladau ac adnoddau o ansawdd da. Yn arbennig, mae safon uchel i'r adnoddau yn y ganolfan ddringo yn Nghaernant, y ganolfan hamdden ym Mangor a'r clybiau ieuenctid yng Nghaernarfon a Bethesda. Mae rhai pobl ifanc yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau technoleg gwybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn Digilabs[15] a ddarperir drwy wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Yn benodol, mae staff yn defnyddio adnoddau'n dda i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu i bobl ifanc. Yn gyffredinol, mae gan bobl ifanc anabl fynediad boddhaol neu dda i adeiladau.

78 Mae rhai partneriaid yn defnyddio adnoddau a rennir yn dda. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol, yr Urdd a'r Clwb Ffermwyr Ifanc yn rhannu gofod neuadd bentref. Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi offer awyr agored arbenigol ar fenthyg i glwb antur ysgol. Nid yw'r bartneriaeth, fodd bynnag, yn gwneud defnyddio digon ar adnoddau a rennir, gan mai newydd ddechrau y mae'r broses o gomisiynu ymchwil i nodi ystod lawn yr adnoddau lleol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid.

[14] Corff sy'n cynrychiolu colegau yng Nghymru.
[15] Y cyfleusterau TG diweddaraf i bobl ifanc a gafwyd trwy fenter Credu Canllaw Ar-lein.

79 Mae lefelau staffio cyffredinol yn dda. Mae gan fwyafrif y partneriaid staff sydd â chymwysterau a phrofiad da, ac mae gan bron pob partner staff sy'n gallu darparu gwasanaethau dwyieithog i bobl ifanc.

80 Mae'r rhan fwyaf o bartneriaid yn ymroddedig iawn i ddatblygiad staff. Yn y sector statudol, mae staff yn elwa ar sesiwn sefydlu addysgiadol a defnyddiol a system dda i adolygu perfformiad. Mae enghreifftiau da o bartneriaid yn rhannu hyfforddiant staff; er enghraifft, mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn cyflwyno digwyddiadau hyfforddi penodol i'w staff ei hun, i'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, i'r adrannau adfywio a hamdden ac i Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin. Fodd bynnag, er gwaethaf enghreifftiau unigol o arfer dda, nid oes cynllunio cyffredinol ar gyfer datblygu'r gweithlu ar draws y bartneriaeth. Felly, ni all y bartneriaeth fynd i'r afael ag anghenion datblygu staff yr holl bartneriaid nac ymateb yn gydweithredol i anghenion canfyddedig pobl ifanc.

81 Mae partneriaid yn dechrau rhannu a chanoli adnoddau. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi secondio uwch ymarferwr i gyflawni gwaith ar ran y Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Yn ogystal, roedd y Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc ar y cyd wedi comisiynu grŵp o bobl ifanc i ymgynghori â phlant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

82 Mae gan y bartneriaeth wybodaeth dda am ddarpariaeth a ariennir gan Cymorth. Gwneir defnydd da o archwilio mewnol i wneud yn siŵr bod partneriaid yn defnyddio arian Cymorth yn briodol, a chymerir camau cywir i fynd i'r afael ag unrhyw ddefnydd amhriodol o gyllid. Fodd bynnag, nid yw pob partner yn glir ynghylch prosesau penderfynu'r bartneriaeth i ddosbarthu cyllid Cymorth.

83 Barnodd yr arolygiad fod y trefniadau partneriaeth yng Ngwynedd, ar y cyfan, yn cynnig gwerth boddhaol am arian.

Ymateb y darparwr i ganfyddiadau'r adroddiad

Ymateb Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd i Adroddiad Estyn ar Ansawdd a Safonau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Ngwynedd

Mae Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd wedi derbyn Adroddiad Estyn ar Ansawdd a Safonau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Ngwynedd ac wedi nodi ei gynnwys.

Mae'r Bartneriaeth Strategol yn falch fod Estyn yn amlygu ac yn cydnabod y camau pwysig sydd wedi eu cymryd gan y bartneriaeth i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ers y'i sefydlwyd yn Ionawr 2007.

Mae'r Bartneriaeth Strategol yn derbyn bod lle i wella.

Mae'r Bartneriaeth Strategol yn derbyn yr argymhellion sydd wedi eu llunio gan Estyn. Yn wir, mae'r Bartneriaeth Strategol yn gwbl hyderus y gall ymateb yn gadarnhaol ac yn effeithiol i'r argymhellion hyn drwy gyfrwng y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a hynny er lles holl bobl ifanc Gwynedd.

Atodiad 1

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd wyth arolygydd gyfanswm o 14 diwrnod yn arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

Cynhaliodd arolygwyr dros 25 o ymweliadau arsylwi â phrosiectau, gweithgareddau a chanolfannau. Yn ogystal, cynhaliodd y tîm dros 65 o gyfweliadau a chyfarfodydd grwpiau ffocws.

Arsylwodd y tîm arolygu ar amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth ieuenctid gan gynnwys:

- gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol;
- gwasanaethau a ddarperir gan gyrff statudol eraill; a
- darpariaeth y sector gwirfoddol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd â:

- dysgwyr;
- staff a gwirfoddolwyr;
- aelodau o'r Bartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc a'r Grwpiau Cynllunio a Datblygu;
- rheolwyr a chynrychiolwyr prosiectau, mudiadau a darparwyr; ac
- uwch swyddogion ac aelodau etholedig yr awdurdod lleol.

Ystyriodd y tîm arolygu:

- adroddiadau hunanarfarnu;
- detholiad o waith pobl ifanc;
- tystiolaeth arolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;
- dogfennau a ddarparwyd gan y Bartneriaeth;
- dogfennau a ddarparwyd gan ddarparwyr gwasanaeth unigol;
- y dystiolaeth o arolygiadau blaenorol Estyn o bob darparwr perthnasol; a
- chynlluniau a strategaethau lleol, gan gynnwys y Cynllun Addysg Sengl, ac agendâu a chofnodion cyfarfodydd grwpiau allweddol.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Betsan O'Connor AEM	Arolygydd Cofnodol
Liam Kealy AEM	Arolygydd Tîm
Sw Roberts AEM	Arolygydd Tîm
Ann Jones AEM	Arolygydd Tîm
Angharad Reed AEM	Arolygydd Tîm
Catrin Rees (secondai gydag Estyn)	Arolygydd Tîm
Cefin Cambell	Arolygydd Ychwanegol
Marc Forster	Asesydd Cymheiriaid
Darren Griffiths	Enwebai'r darparwr

Atodiad 3

Trefniadau partneriaeth